# **Arweiniad atodol:** Gwerthuso ansawdd ac effaith dysgu proffesiynol

**Hydref 2022**

Estyn

estyn.llyw.cymru
@EstynAEM

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon / cyhoeddiad hwn at:


Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru


Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru


**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen / cyhoeddiad penodol.**

**Beth yw'r diben?**

Mae hwn yn rhoi mwy o arweiniad i arolygwyr ei ddefnyddio ochr yn ochr ag arweiniad y sector ar gyfer arolygu

**Ar gyfer pwy mae wedi'i fwriadu?**

Ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol, lleoliadau nas cynhelir a sefydliadau ôl-16 / AB

**Pryd y dylid dechrau defnyddio'r arweiniad?**

Medi 2022

## Cynnwys — Tudalen


| | |
|---|---|
| **Arweiniad atodol** | **1** |
| **Cyflwyniad** | **2** |
| **Arolygu dysgu proffesiynol** | **2** |
| **Beth rydym yn ei arolygu** | **3** |
| **Sut rydym yn arolygu dysgu proffesiynol** | **6** |
| **Cofweinydd: Arolygu Dysgu Proffesiynol** | **7** |

## Arweiniad atodol

Dogfennau allweddol Estyn sy’n llywio gweithgarwch arolygu yw’r llawlyfrau arweiniad arolygu ar gyfer pob sector. Fodd bynnag, rydym hefyd yn llunio arweiniad atodol i helpu arolygwyr ystyried agweddau penodol ar addysg a hyfforddiant ymhellach.

Mae’r dogfennau arweiniad atodol yn amlinellu egwyddorion allweddol, ystyriaethau ac adnoddau ar gyfer arolygwyr. Maent yn ymwneud â phob sector sy’n cael ei arolygu gan Estyn, oni bai eu bod yn datgan eu bod ar gyfer sector penodol. Maent yn ehangu ar rai agweddau ar addysg / hyfforddiant (e.e. arolygu llythrennedd) neu ar ffyrdd o gynnal arolygiadau (e.e. defnyddio teithiau dysgu) neu drefniadau arolygu penodol (e.e. arweiniad ar arolygu ysgolion eglwys).

Nid nod y dogfennau arweiniad atodol yw bod yn gynhwysfawr. Nid yw’n ofynnol i arolygwyr weithio trwyddynt yn hollgynhwysfawr wrth ymdrin ag unrhyw agwedd benodol ar arolygiad. Fodd bynnag, gallent fod yn ddefnyddiol i arolygwyr wrth ymateb i gwestiynau penodol sy’n dod i’r amlwg a allai godi yn ystod arolygiadau, neu pan fyddant yn dymuno myfyrio neu ymchwilio ymhellach.

Gallai’r dogfennau arweiniad atodol helpu darparwyr i ennill dealltwriaeth o drefniadau arolygu Estyn. Hefyd, gallent fod yn fuddiol i ddarparwyr wrth werthuso agweddau penodol ar eu darpariaeth eu hunain.

Mae ein gwaith arolygu wedi’i seilio ar yr egwyddorion canlynol:

- Bydd arolygwyr yn arolygu â meddylfryd cadarnhaol i sicrhau bod y staff ym mhob darparwr yn cael y profiad dysgu proffesiynol gorau posibl
- Bydd arolygwyr yn defnyddio dull arolygu sy’n canolbwyntio ar y dysgwr
- Bydd arolygwyr bob amser yn canolbwyntio’n gryf ar ansawdd yr addysgu a’r dysgu
- Bydd arolygwyr yn chwilio am arfer arloesol dra ystyriol
- Bydd arolygwyr yn teilwra’r gweithgareddau arolygu yn unol â’r amgylchiadau ym mhob darparwr, cyhyd ag y bo modd
- Bydd arolygwyr yn hyblyg ac ymatebol i ganfyddiadau sy’n dod i’r amlwg, a byddant yn defnyddio’r amrywiaeth gynyddol o offer a dulliau arolygu sydd ar gael
- Bydd arolygwyr yn ystyried popeth yn y fframwaith arolygu, ond yn adrodd ar y cryfderau allweddol a’r gwendidau yn unig ym mhob darparwr

## Maes arolygu 5.3 Dysgu proffesiynol

## Cyflwyniad

Mae diwygiadau presennol o fewn y system addysg yng Nghymru yn gyfystyr â symudiad sylfaenol yn nisgwyliadau'r gweithlu addysg. Cyflwynwyd sawl menter polisi i gynorthwyo darparwyr i ddatblygu diwylliant o ddysgu ac ymholi proffesiynol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol (NAPL) a'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol (NPLE)
- Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu (SLO)
- Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth
- Arwain Dysgu Proffesiynol, Arweinyddiaeth Genedlaethol Cymru
- MA Cenedlaethol (Addysg)
- Trefniadau rheoli perfformiad a'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PLP)
- Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol (NSERE)
- Datblygiad proffesiynol parhaus ôl-16

Mae'r mentrau hyn wedi codi'r proffil a'r disgwyliadau ar gyfer dysgu proffesiynol parhaus i weithwyr addysg proffesiynol.

Dylid darllen yr arweiniad hwn ar y cyd â'r Fframwaith Arolygu Cyffredin, yn enwedig adran 5.3 Dysgu proffesiynol.

## Arolygu dysgu proffesiynol

Rydym yn arolygu dysgu proffesiynol fel rhan o arweinyddiaeth ym maes arolygu 5. Rydym yn ystyried y ffordd y mae darparwyr yn sefydlu diwylliant cadarnhaol sy'n annog ac yn cynorthwyo ymarferwyr i ymgysylltu â dysgu proffesiynol. Yn dibynnu ar y sector, gallai ein dull o arolygu dysgu proffesiynol fod yn wahanol i ystyried diwygiadau perthnasol ac arfer sy'n benodol i'r sector hwnnw. Er enghraifft, mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion, rydym yn ystyried p'un a yw dysgu proffesiynol i ddatblygu ymagweddau at y Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys ffocws ar wella addysgu. Mewn Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA), rydym yn ystyried ffyrdd y mae darparwyr yn cefnogi datblygiad cymunedau dysgu ar draws partneriaeth AGA trwy ddatblygu gwybodaeth a medrau ymchwil. Yn y sector ôl-16, gallwn ystyried effaith cymryd rhan mewn prosiectau a ariennir gan y gronfa datblygiad proffesiynol ôl-16.

Rydym yn cydnabod efallai fod gan wahanol sectorau addysg a hyfforddiant flaenoriaethau gwahanol ar gyfer dysgu proffesiynol, ond mae ein hymagwedd eang at arolygu wedi'i seilio ar set o egwyddorion ategol sy'n nodweddu dysgu proffesiynol effeithiol.

- Cydweithredol – mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd o fewn ysgolion, ac ar eu traws, fel nodwedd allweddol o ddysgu proffesiynol, gan gynnwys trwy hyfforddi a mentora.

- Myfyriol – mae dysgu proffesiynol yn darparu cyfleoedd i ymarferwyr fyfyrio'n feirniadol ac yn ddiduedd ar arfer bresennol a bod yn agored i fyfyrdodau pobl eraill ynghylch sut y gellir gwella neu ddatblygu arferion.

- Gwybodus – mae dysgu proffesiynol wedi'i seilio ar ymchwil ac arfer effeithiol ac yn cynorthwyo ymarferwyr i feithrin eu medrau eu hunain o ran defnyddio tystiolaeth, ymchwil a data.

- Gwerthusol ac yn effeithiol – caiff allbynnau a deilliannau dysgu proffesiynol eu gwerthuso i ystyried yr effaith ar gynnydd a dysgu dysgwyr.

- Ymatebol a hyblyg – mae ysgolion a darparwyr yn ymatebol i'w gwerthusiad o ddysgu proffesiynol, gan fyfyrio ar ei werth a'i gyfraniad at flaenoriaethau strategol yr ysgol / y darparwr, a gwneud newidiadau fel ei fod yn meithrin capasiti i yrru gwelliant.

## Beth rydym yn ei arolygu

Dylai arolygwyr werthuso'r graddau y mae arweinwyr wedi creu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hyrwyddo a chefnogi dysgu proffesiynol parhaus pob aelod o staff. Dylent ystyried p'un a yw dysgu proffesiynol i wella addysgu a datblygu'r Cwricwlwm i Gymru wedi cael effaith gadarnhaol wrth ddatblygu darpariaeth ystafell ddosbarth sy'n diwallu anghenion dysgwyr.

Dywed Adran 5.3 y Fframwaith Arolygu Cyffredin y dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r darparwr:

- yn defnyddio'r model Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu (SLO), er enghraifft i gefnogi eu dull dysgu proffesiynol
- yn cysylltu dysgu proffesiynol â hunanwerthuso a blaenoriaethau gwella
- yn cynnwys pob un o'r staff mewn gweithgareddau pwrpasol sy'n cefnogi datblygiad eu gwybodaeth a dealltwriaeth broffesiynol, a'u medrau addysgu ac arwain
- yn sicrhau bod dysgu proffesiynol yn annog arloesi ac yn canolbwyntio'n gyson ar sicrhau gwelliannau yng nghynnydd a lles disgyblion
- yn nodi arfer dda o fewn yr ysgol / y darparwr ac yn sicrhau bod aelodau staff eraill yn gallu elwa arni
- yn cydweithio ag ysgolion neu ddarparwyr eraill, darparwyr addysg gychwynnol athrawon a darparwyr dysgu proffesiynol i rannu a datblygu arfer broffesiynol
- yn monitro effaith dysgu proffesiynol ar effeithiolrwydd addysgu ac arweinyddiaeth, ac ar gynnydd a lles dysgwyr

Os yw'r ysgol yn ysgol arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon, bydd arolygwyr yn adrodd ar effaith y gwaith hwn ar ddulliau'r ysgol ar gyfer dysgu proffesiynol.

**Yn cysylltu dysgu proffesiynol a chanfyddiadau hunanwerthuso a blaenoriaethau gwella**

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae arweinwyr yn defnyddio hunanwerthuso i'w helpu i gynllunio dysgu proffesiynol sy'n bodloni blaenoriaethau gwella'r ysgol / darparwr. Dylai hyn ystyried anghenion datblygiadol y gweithlu, a'u gallu i gyflawni'r blaenoriaethau. Dylai gwerthuso a myfyrio fod yn rhan bwysig o ddysgu proffesiynol yn hytrach na gweithgaredd sy'n cael ei wneud ar wahân. Dylid cynorthwyo athrawon i werthuso'r gwahaniaeth mae dysgu proffesiynol wedi'i wneud i'w harfer, a sut caiff hyn effaith ar gynnydd dysgwyr. Dylent ddeall eu rôl mewn gwerthuso dysgu proffesiynol fel rhan o gylch gwella myfyriol. Os caiff hyn ei wneud yn dda, dylai fod yn bosibl gweld sut mae gwerthuso dysgu proffesiynol yn bwydo i mewn i broses hunanwerthuso neu gynllunio gwelliant yr ysgol neu'r darparwr.

**Yn cynnwys pob aelod o staff mewn gweithgareddau pwrpasol sy'n cefnogi datblygiad eu gwybodaeth a dealltwriaeth broffesiynol a'u medrau addysgu ac arwain, yn ogystal â gwybodaeth bwnc neu alwedigaethol, pan fo'n briodol**

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae gan yr ysgol / y darparwr ddiwylliant sy'n cefnogi dysgu proffesiynol ac yn annog ymarferwyr i ymgymryd ag amrywiaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n diwallu eu hanghenion datblygiadol proffesiynol, blaenoriaethau'r ysgol / darparwr a blaenoriaethau cenedlaethol. Dylai arweinwyr sicrhau bod staff yn gallu manteisio ar ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel i ddatblygu eu gwybodaeth broffesiynol, eu medrau addysgu ac arwain, a gwybodaeth bynciol neu alwedigaethol. Gallai hyn gynnwys rhaglen dysgu proffesiynol dra ystyriol sy'n diwallu anghenion staff, yn cyfrannu at welliant parhaus, ac nid yw'n gosod disgwyliadau ar staff na ellir eu cyfiawnhau.

Dylem ystyried y ffordd y mae trefniadau rheoli perfformiad yn cefnogi dysgu proffesiynol, gan gynnwys defnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PLP)

Mewn ysgolion, dylem ystyried pa mor dda y mae arweinwyr ac athrawon yn deall ac yn defnyddio'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth i:

- helpu ymarferwyr i fyfyrio ar eu harfer
- cynorthwyo ymarferwyr i nodi meysydd i'w datblygu ymhellach
- darparu cyd-destun ar gyfer trafodaethau rheoli perfformiad

**Yn sicrhau bod dysgu proffesiynol yn canolbwyntio'n gyson ar sicrhau gwelliannau yng nghynnydd a lles disgyblion**

Un o'r ffyrdd mwyaf pwerus o wella cynnydd a lles disgyblion yw trwy ddysgu proffesiynol effeithiol sy'n canolbwyntio ar wella addysgu. Mae hyn yn cynnwys gwella ansawdd arfer ystafell ddosbarth, yn ogystal â chefnogi gweithredu mentrau newydd, fel y Cwricwlwm i Gymru a strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgu proffesiynol yn cynorthwyo ymarferwyr i fod yn ymwybodol o ddatblygiadau pwysig mewn addysg, a'r effaith y bydd y rhain yn ei chael ar eu harfer. Dylem ystyried y graddau y mae dysgu proffesiynol yn ymarfogi ymarferwyr â'r medrau i fod yn addysgwyr / athrawon hynod effeithiol.

Mae mwy o fanylion ar gael yn [Arfer effeithiol: Gwella ansawdd addysgu trwy ddysgu proffesiynol]

**Yn nodi arfer dda o fewn yr ysgol ac yn sicrhau y gall aelodau staff eraill elwa arni**

Mae dysgu proffesiynol effeithiol yn gofyn am arweinyddiaeth effeithiol i greu'r amodau angenrheidiol (Stoll et al, 2012)

Mae darparwyr sydd â diwylliant cryf a chynaledig o ddysgu proffesiynol yn nodi arfer effeithiol yn systematig o fewn eu sefydliad, ac yn hwyluso dulliau effeithiol o rannu hyn ag ymarferwyr. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae arweinwyr yn creu cymuned dysgu proffesiynol gref, ac wedi ymrwymo i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o'r modd y mae dysgu proffesiynol yn cyfrannu at ddeilliannau gwell ar gyfer dysgwyr. Maent yn meithrin diwylliant sy'n gwerthfawrogi rhannu arfer, cydweithio a hunanfyfyrio.

**Yn cydweithio, er enghraifft, ag ysgolion eraill, darparwyr ôl-16, sefydliadau addysg gychwynnol athrawon a darparwyr dysgu proffesiynol i rannu a datblygu arfer broffesiynol**

Mae dysgu proffesiynol effeithiol yn rhoi cyfleoedd i ymarferwyr gydweithio i ddatblygu dulliau newydd ar gyfer dysgu, addysgu a sicrhau lles trwy ymholi, arloesi a gwerthuso effaith. Gallai cydweithio fod o fewn y sefydliad neu gynnwys cydweithio ar draws yr ysgol / y darparwr, neu gydweithio ar draws sectorau.

**Yn monitro effaith dysgu proffesiynol ar effeithiolrwydd addysgu ac arweinyddiaeth, ac ar gynnydd a lles disgyblion**

Mae arweinwyr yn gwerthuso effaith dysgu proffesiynol yn barhaus ar gynnydd a lles myfyrwyr. Dylai arolygwyr ystyried effeithiolrwydd y strategaethau a ddefnyddir i werthuso effaith dysgu proffesiynol ar gynnydd a lles dysgwyr, a pha mor dda maent yn defnyddio'r wybodaeth a gânt o werthusiadau i lywio cynllunio strategol. Hefyd, dylai arweinwyr werthuso dysgu proffesiynol i wella ansawdd dysgu yn y dyfodol, a'u helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am ddysgu proffesiynol parhaus.

**Ystyriaethau ychwanegol yn benodol i sector**

*Ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir*

Os yw'r ysgol yn ysgol arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon, bydd arolygwyr yn adrodd ar effaith y gwaith hwn ar ddulliau'r ysgol ar gyfer dysgu proffesiynol.

## Sut rydym yn arolygu dysgu proffesiynol

Dylai tîm arolygu ystyried sut mae'r egwyddorion arolygu allweddol yn berthnasol wrth werthuso dysgu proffesiynol.

Bwriedir i ddysgu proffesiynol gael effaith ar gynnydd a lles dysgwyr. Nid ydym yn barnu dysgu proffesiynol yn ôl nifer y staff sy'n ymgymryd â rhaglen na faint o gyfleoedd dysgu proffesiynol sydd ar gael iddynt. Wrth arolygu dysgu proffesiynol, dylem ni bob amser ofyn cwestiynau am yr effaith ar arfer, cynnydd a lles. Fodd bynnag, dylem gofio na fydd effaith dysgu proffesiynol efallai'n amlwg ar unwaith, ar adegau. Felly, gallem ofyn cwestiynau am sut mae athrawon wedi newid eu harfer, a sut mae arweinwyr yn gwybod bod hyn yn debygol o gael effaith ar gynnydd a lles. Wrth arsylwi gwersi, dylem fod yn ymwybodol o sut gallai unrhyw ddysgu proffesiynol fod wedi cael effaith ar arfer ystafell ddosbarth, ac ystyried pa mor dda mae hyn yn gweithio. Pan fyddwn yn siarad ag arweinwyr sy'n ymgymryd â dysgu proffesiynol i ddatblygu eu medrau arwain, dylem ystyried pa mor dda y mae'r dysgu proffesiynol yn eu harfogi â'r wybodaeth a'r medrau i gael effaith gadarnhaol ar gynnydd a lles dysgwyr. Hefyd, dylem ystyried sut mae arweinwyr yn ymgymryd â dysgu proffesiynol i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u medrau arwain i ymateb i ddatblygiadau newydd mewn addysg yng Nghymru. Er enghraifft, o ran arweinyddiaeth ysgolion cymunedol neu wrth weithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o asiantaethau trwy hyb cymunedol.

Mae ymchwil a thystiolaeth yn dweud wrthym mai ansawdd ac effeithiolrwydd addysgu a dysgu sy'n cael yr effaith fwyaf ar gynnydd dysgwyr. Wrth arolygu dysgu proffesiynol, dylem ystyried sut mae dysgu proffesiynol yn cyfrannu at wella addysgu ac yn defnyddio tystiolaeth o addysgeg effeithiol i sicrhau bod arfer yn cael ei llywio'n feirniadol. Dylai dysgu proffesiynol effeithiol ddarparu cyfleoedd cyfoethog i ymarferwyr ddatblygu eu harfer trwy ymholi a gwerthuso beirniadol.

Pan fyddwn yn arolygu dysgu proffesiynol, dylem ddefnyddio amrywiaeth o dystiolaeth sy'n ein helpu i gael mewnwelediad i briodoldeb, ansawdd ac effaith profiadau dysgu proffesiynol. Er enghraifft, os yw ysgol / darparwr yn rhan o fenter dysgu proffesiynol benodol, dylem anelu at arsylwi allbynnau / effaith y gwaith hwn trwy arsylwi ystafell ddosbarth neu gynnal deialog gydag athrawon ac aelodau staff eraill. Nid yw'n ddigon i drafod hyn gydag arweinwyr yr ysgol / y darparwr yn unig heb fynd ar ei drywydd trwy edrych ar yr allbwn, y gwahaniaeth y mae wedi'i wneud i arfer a chynnydd a lles.

**Gwybodaeth ddefnyddiol**

Effective Professional Development | EEF (educationendowmentfoundation.org.uk)

Evaluating the impact of professional learning (aitsl.edu.au)

## Cofweinydd: Arolygu Dysgu Proffesiynol

Dywed Adran 5.3 y Fframwaith Arolygu Cyffredin y dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae’r darparwr:

**Yn cysylltu dysgu proffesiynol yn glir â chanfyddiadau hunanwerthuso a blaenoriaethau gwella**

- Pa mor dda y mae arweinwyr yn defnyddio hunanwerthuso i’w helpu i gynllunio dysgu proffesiynol sy’n bodloni blaenoriaethau gwella eu hysgol / darparwr?
- Pa mor dda y mae’r ysgol yn sicrhau bod myfyrio a gwerthuso yn elfen allweddol o fewn rhaglenni neu fentrau dysgu proffesiynol?
- Pa mor dda y mae ymarferwyr sy’n cymryd rhan yn deall eu rôl mewn gwerthuso dysgu proffesiynol fel rhan o gylch gwella myfyriol?

**Yn cynnwys pob aelod o staff mewn gweithgareddau pwrpasol sy’n cefnogi datblygiad eu gwybodaeth a dealltwriaeth broffesiynol a’u medrau addysgu ac arwain**

- Pa egwyddorion sy’n ategu’r diwylliant dysgu proffesiynol yn yr ysgol / y darparwr? A oes strategaeth glir?
- Sut mae’r diwylliant hwn wedi cael ei sefydlu a’i gynnal?
- A yw’r darparwr wedi sefydlu rhaglen dysgu proffesiynol dra ystyriol sy’n diwallu anghenion ymarferwyr ac yn cyfrannu at welliant parhaus?

**Yn sicrhau bod dysgu proffesiynol yn annog arloesi ac yn canolbwyntio’n gyson ar sicrhau gwelliannau yng nghynnydd a lles disgyblion**

- Sut mae dysgu proffesiynol yn sicrhau bod ymarferwyr yn ymwybodol o ddatblygiadau pwysig mewn addysg, a’r effaith y bydd y rhain yn ei chael ar eu harfer?
- Sut mae dysgu proffesiynol yn rhoi’r wybodaeth a’r medrau i ymarferwyr i ddatblygu dulliau newydd o ran eu harfer?
- A oes gan yr ysgol grwpiau neu gymunedau dysgu proffesiynol sy’n canolbwyntio ar arloesi a gwella?
- Sut caiff ymarferwyr eu hannog a’u cynorthwyo i ymgymryd ag ymholi proffesiynol?

**Yn nodi arfer dda o fewn yr ysgol / y darparwr ac yn sicrhau bod aelodau staff eraill yn gallu elwa arni**

- Sut mae arweinwyr yn nodi arfer dda? Beth sy’n llywio eu barn?
- Sut caiff arfer dda ei rhannu ar draws yr ysgol / y darparwr?
- Sut mae arweinwyr yn gwybod bod hyn wedi arwain at newid a gwelliant yn yr ysgol?
- Sut mae arweinwyr yn sicrhau bod arfer dda yn dod yn drefn arferol o fewn yr ysgol?

**Yn cydweithio ag ysgolion neu ddarparwyr eraill, darparwyr addysg gychwynnol athrawon a darparwyr dysgu proffesiynol i rannu a datblygu arfer broffesiynol**

- I ba raddau y mae'r ysgol / darparwr yn gweithio gyda darparwr arall i gynnwys ymarferwyr mewn dysgu proffesiynol ar y cyd?
- A yw'r ysgol / darparwr yn darparu dysgu proffesiynol ar gyfer ysgolion / darparwyr eraill? Sut mae hyn wedi bod yn fuddiol i'r ysgol / darparwr sy'n destun arolygiad?
- Sut mae arweinwyr yn annog ymagweddau cydweithredol at ddysgu proffesiynol?

**Yn monitro effaith dysgu proffesiynol ar effeithiolrwydd addysgu ac arweinyddiaeth, ac ar gynnydd a lles dysgwyr**

- Sut mae'r ysgol / darparwr yn gwerthuso effaith dysgu proffesiynol ar wella addysgu?
- Pa strategaethau y mae'r ysgol yn eu defnyddio i werthuso effaith dysgu proffesiynol ar gynnydd a lles dysgwyr?
- Sut mae'r ysgol / darparwr yn gwybod bod dysgu proffesiynol wedi gwella medrau arwain ymarferwyr?
- Sut mae'r ysgol / darparwr yn gwerthuso pa mor dda y mae cyllid ar gyfer dysgu proffesiynol wedi cael ei ddefnyddio i wella effeithiolrwydd yr addysgu, yr arweinyddiaeth a'r effaith ar gynnydd a lles dysgwyr?
- Pa mor dda y mae'r ysgol / darparwr yn defnyddio tystiolaeth i adolygu a mireinio'i (h)ymagwedd at ddysgu proffesiynol?
- A yw'r darparwr yn gallu rhoi unrhyw enghreifftiau o'r modd y mae arfer wedi newid oherwydd dysgu proffesiynol, a sut maen nhw'n gwybod bod gwelliannau wedi cael eu gwneud?